# Adolygiad o'r broses ar gyfer gweithredu argymhellion archwilio

## Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Blwyddyn archwilio:** 2010-11

**Cyhoeddwyd:** Medi 2011

**Cyfeirnod y ddogfen:** 447A2011

# Statws yr adroddiad

Cyflawnwyd y gwaith gan Andrew Strong.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio er y gellid gwneud nifer o welliannau i gryfhau'r broses.


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 5 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Ers Rhagfyr 2010 mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses i olrhain argymhellion archwilio ond mae lle i wella mewn nifer o ffyrdd | 6 |
| Ni chafodd camau gweithredu yr adroddwyd yn eu cylch yn y Datganiad Etifeddiaeth eu dwyn ymlaen gan yr Ymddiriedolaeth newydd a chyflwynwyd hyn i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer ei gymeradwyo | 8 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1. Mae prosesau effeithiol ar gyfer trin, rheoli a monitro'r gwaith o weithredu argymhellion archwilio yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn elwa'n llawn ar reoleiddio. Mae hyn yn berthnasol i gamau gweithredu a argymhellir gan gyrff archwilio mewnol ac allanol, yn ogystal â chyrff arolygu eraill.
2. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) ar 1 Hydref 2009 a chymerodd gyfrifoldeb dros nifer o swyddogaethau iechyd cyhoeddus, gan gynnwys:
    - Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (rhan o Ymddiriedolaeth GIG Felindre (Felindre) yn flaenorol);
    - Gwasanaethau Sgrinio (rhan o Felindre yn flaenorol);
    - Canolfan Iechyd Cymru (corff a noddwyd gan Lywodraeth Cymru yn flaenorol);
    - Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (rhan o Fwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg yn flaenorol); ac
    - Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (o dan Felindre yn flaenorol).
3. Ar ddiwedd 2009 lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru Ddatganiad Etifeddiaeth ar gyfer yr Ymddiriedolaeth er mwyn tynnu sylw at yr argymhellion archwilio yr arferid adrodd yn eu cylch wrth y cyrff rhagflaenol uchod. Nod ein hadolygiad oedd asesu mecanweithiau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio ac asesu cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion archwilio perfformiad yr adroddwyd yn eu cylch yn y Datganiad Etifeddiaeth.
4. Rydym felly wedi cynnal adolygiad i geisio ateb y cwestiwn:
    - 'A oes gan yr Ymddiriedolaeth fecanweithiau effeithiol i reoli a monitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion archwilio allanol?'
5. Ein casgliad cyffredinol yw bod yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses resymol i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio er y gellid gwneud nifer o welliannau i gryfhau'r broses.
6. Yn gryno, dyma'r rhesymau dros y casgliad hwn:
    - ers Rhagfyr 2010, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio er bod lle i welliant pellach; ac
    - ni chafodd camau gweithredu archwilio yr adroddwyd yn eu cylch yn y Datganiad Etifeddiaeth eu dwyn ymlaen gan yr Ymddiriedolaeth newydd a chyflwynwyd hyn i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer ei gymeradwyo.
7. Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried yn fanylach yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn. Nodir yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith isod.

# Argymhellion

**8.** Mae'r adolygiad hwn wedi nodi'r argymhellion canlynol a ddylai gynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i wella ei dull presennol o reoli'r cynnydd a wneir yn erbyn argymhellion archwilio.

| | |
|---|---|
| A1 | Nodi dyddiad cwblhau adroddiad archwilio ar gyfer pob argymhelliad archwilio yn y cofnod gweithredu'r archwiliad. |
| A2 | Sefydlu mecanwaith i ystyried adroddiadau gwerth am arian cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru i weld a fyddai'r Ymddiriedolaeth yn gallu elwa ar bob astudiaeth, a sut. Dyrannu cyfrifoldeb am y dasg hon i reolwr priodol yn yr Ymddiriedolaeth. |
| A3 | Datblygu dadansoddiad o nifer yr argymhellion archwilio a wnaed, y nifer sydd ar y gweill, a'r nifer sydd wedi'u cwblhau yn ystod cyfnod, gan nodi eu blaenoriaeth. |

# Adroddiad manwl

## Ers Rhagfyr 2010, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses i olrhain argymhellion archwilio ond mae lle i wella mewn nifer o ffyrdd

**9.** Yn ystod Rhagfyr 2010 sefydlodd yr Ymddiriedolaeth broses ar gyfer trin, rheoli a monitro cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth gofnod gweithredu'r archwiliad i gofnodi a nodi'r sefyllfa bresennol o ran argymhellion archwilio. Cyflwynir adroddiad ar gofnod gweithredu'r archwiliad ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio.

**10.** Isod, crynhoir nodweddion allweddol y mecanwaith ar gyfer trin, rheoli a monitro cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio:

- Ychwanegir argymhellion at gofnod gweithredu'r archwiliad wedi i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac ar ôl cytuno ar gynllun gweithredu.
- Mae cofnod gweithredu'r archwiliad yn amlinellu'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen ar gyfer trin a rheoli'r cam gweithredu y cytunwyd arno ac mae'n cynnwys rhif cyfeirnod, dyddiad ei ychwanegu at y cofnod, yr argymhelliad, ei flaenoriaeth, camau rheoli, cyfrifoldeb, swyddog atebol, dyddiad gweithredu y cytunwyd arno, statws cynnydd a sylwadau ar gynnydd.
- Cyn pob Pwyllgor Archwilio, caiff y cynnydd perthnasol ei ddiweddaru gan y sawl sy'n gweithredu fel sy'n briodol.
- Mae statws pob cam gweithredu yn dilyn cod lliw fel a ganlyn:
  - coch – gwaith heb ei gwblhau erbyn y dyddiad a gytunwyd;
  - ambr – gwaith nad yw'n debyg o gael ei gwblhau erbyn y dyddiad a gytunwyd;
  - melyn – gwaith sy'n debyg o gael ei gwblhau erbyn y dyddiad a gytunwyd;
  - gwyrdd – wedi'i gwblhau.
- Gall swyddogion yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Archwilio fonitro'r cynnydd a wneir drwy adolygu statws pob cam gweithredu archwilio.
- Ar ôl i argymhellion gael eu gweithredu'n llawn a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio, cânt eu tynnu o ran eitemau agored cofnod gweithredu'r archwiliad a'u trosglwyddo i gofnod o gamau gweithredu a gwblhawyd. Mae hyn yn sicrhau fod trywydd archwilio'n cael ei gadw ar gyfer pob argymhelliad.

**11.** Er bod proses resymol ar gyfer trin, rheoli a monitro argymhellion archwilio wedi cael ei sefydlu, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gellid gwella'r broses ymhellach. Rydym wedi nodi'r ffyrdd canlynol i'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o weithredu:

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cofnodi'r dyddiad yr ychwanegir cam gweithredu at y cofnod ond nid yw bob amser yn cofnodi'r dyddiad y bydd adroddiad neu argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth. Byddai cofnodi'r wybodaeth hon yn gymorth i sicrhau bod gan y Pwyllgor Archwilio ddarlun clir o oedran pob argymhelliad archwilio.

- Mae’r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu amserlen ddangosol ar gyfer cynhyrchu cynllun gweithredu lleol o bob adroddiad archwilio a chynnwys y camau gweithredu hynny yng nghofnod gweithredu’r archwiliad. Er enghraifft, cynlluniwyd i gynnwys yr argymhellion o’r Adroddiad ar Gontractau Meddygon Ymgynghorol, a gwblhawyd ym mis Mai 2011 ac a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Archwilio ar 6 Mehefin 2011, yng nghofnod gweithredu’r archwiliad a gyflwynir i Bwyllgor Archwilio mis Medi 2011. O ganlyniad, bydd y Pwyllgor Archwilio’n gallu asesu’r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion hyn ar gyfer gweithredu.
- Hefyd, ym mis Mawrth 2011, cytunwyd ar ein hadroddiad ar yr Asesiad Strwythuredig i’r Ymddiriedolaeth. Yn yr adroddiad hwn, gwnaed nifer o argymhellion gennym ynglŷn â threfniadau’r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus ac mewn ffordd sy’n darparu sylfaen gref ar gyfer gwelliannau cynaliadwy i’r gwasanaeth. Mae’r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ychwanegu’r argymhellion neu’r camau datblygu hyn at gofnod gweithredu’r archwiliad a gyflwynwyd i gyfarfod mis Medi’r Pwyllgor Archwilio. O ganlyniad, bydd y Pwyllgor Archwilio yn gallu asesu’r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau datblygu hyn.
- Mae’r datganiad sefyllfa archwilio a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Archwilio yn sôn am archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru sy’n berthnasol i’r GIG. Er na chyflwynwyd argymhellion uniongyrchol i’r Ymddiriedolaeth yn yr archwiliadau hyn, maent yn cynnwys arferion da perthnasol a chamau gwella a allai fod o fudd i’r Ymddiriedolaeth. Dylai’r Ymddiriedolaeth sefydlu mecanwaith i asesu ac ystyried yr adroddiadau gwerth am arian cenedlaethol hyn yn ffurfiol.
- Wrth dderbyn a chytuno ar argymhellion archwilio, byddai’r Ymddiriedolaeth yn elwa ar ddefnyddio trefn CAMPUS[1] ar gyfer cynlluniau gweithredu. Byddai’r drefn hon yn gymorth i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn deall y camau fydd eu hangen i fynd i’r afael ag argymhellion fel bod modd eu cwblhau’n amserol.

Pennir nifer o argymhellion ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gan archwiliadau mewnol ac allanol ar draws ystod eang o adolygiadau. Byddai darparu crynodeb ar gyfer y Pwyllgor Archwilio o nifer y camau gweithredu a chynnydd ar draws y graddau blaenoriaeth yn arfer da. Bydd hyn yn cynorthwyo Pwyllgor Archwilio i fesur y cynnydd cyffredinol a wnaed yn erbyn camau gweithredu archwilio bob blwyddyn. O’r herwydd, efallai y byddai’n ddefnyddiol hefyd i aelodau Pwyllgor Archwilio gael dadansoddiad syml o nifer yr argymhellion a wnaed ac a gwblhawyd mewn cyfnod. Er enghraifft, mae darparu crynodeb blynyddol yn arfer da er mwyn arddangos y cynnydd cyffredinol a wnaed ar draws ystod o adolygiadau archwilio mewnol ac allanol.

[1] CAMPUS – Derbynnir yn gyffredinol y dylai targedau amcanion, canlyniadau a pherfformiad fod yn dargedau Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol

## Ni chafodd camau gweithredu yr adroddwyd yn eu cylch yn y Datganiad Etifeddiaeth eu dwyn ymlaen gan yr Ymddiriedolaeth newydd a chyflwynwyd hyn i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer ei gymeradwyo

**12.** Ar ddiwedd 2009 lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru Ddatganiad Etifeddiaeth ar gyfer yr Ymddiriedolaeth er mwyn tynnu sylw at yr argymhellion archwilio yr arferid adrodd yn eu cylch wrth y cyrff rhagflaenol. Ein nod drwy'r adolygiad hwn oedd mesur y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion archwilio perfformiad yr adroddwyd yn eu cylch yn y Datganiad Etifeddiaeth.

**13.** Yn ei adolygiad o'r materion etifeddol a phontio, edrychodd y Bwrdd Rheoli Newid ar yr argymhellion yn y Datganiad Etifeddiaeth ar ddiwedd 2009 er mwyn nodi'r rheiny a oedd naill ai'n gymwys, yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth newydd neu'n galw am gamau gwella. Penderfynodd y Bwrdd Rheoli Newid na ddylai'r Ymddiriedolaeth ddwyn unrhyw argymhellion archwilio perfformiad ymlaen o'r Datganiad Etifeddiaeth i gofnod gweithredu'r archwiliad. Mae'r rhesymau dros y penderfyniad hwn yn cynnwys y canlynol:

- nid oedd yr argymhellion yn y Datganiad Etifeddiaeth yn gwbl gymwys a pherthnasol i'r Ymddiriedolaeth newydd;
- roedd rhai argymhellion cymwys yn ymwneud â gwasanaethau a gyflenwid i'r Ymddiriedolaeth gan Felindre o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth y Gwasanaethau Corfforaethol; a
- byddai'r Ymddiriedolaeth, yn lle hynny, yn defnyddio Asesiad Strwythuredig cynlluniedig Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd 2010 fel llinell sylfaen ar gyfer nodi'r materion cyffredinol a alwai am gamau gwella i'w dwyn ymlaen gan yr Ymddiriedolaeth newydd.

**14.** Cyflwynwyd y penderfyniad hwn i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio ar gyfer ei gymeradwyo yn Rhagfyr 2009. Ystyrir bod dogfennu penderfyniadau o'r fath a'u cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio yn arfer da, a thrwy hynny ddarparu trywydd archwilio clir i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

**15.** Nid ydym wedi adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran gweithredu ein hargymhellion datblygu archwilio perfformiad a nodwyd yn yr adroddiad ar yr Asesiad Strwythuredig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2011. Rydym wedi cytuno i oedi cynnal adolygiad o'r fath am o leiaf chwe mis er mwyn gadael i'r Ymddiriedolaeth weithredu ar y camau yr adroddwyd yn eu cylch, a hyd yn hyn, ni ychwanegwyd y camau datblygu hyn at gofnod gweithredu'r archwiliad. Bwriadwn adolygu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn fel rhan o'n Hasesiad Strwythuredig a gynlluniwyd ar gyfer Hydref 2011. Bydd rhan o'r Asesiad Strwythuredig yn cynnwys sefydlu pa waith a wnaed ers mis Mawrth 2011 i fynd i'r afael â'r camau datblygu yr adroddwyd yn eu cylch ac asesu'r cynnydd a wnaed lle nad yw'r argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn hyd yn hyn.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk